

Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd

Cofnodion Cyfarfod Nos Fawrth 31 Ionawr 2023 yng Nghaffi Beca

Yn bresennol: Anthony Jenner (Cadeirydd), Russell Davies, Dennis Jones, Anthony Eynon, Rebecca Jaimangl Jones, Tudur Lewis, Vivian Williams, Janice Morgan (Clerc)

Hefyd yn bresennol: Julie Sweet (aelod o'r gymuned) ar gyfer Materion yn Codi

Ymddiheuriadau: Cyng Dorian Phillips, Geraint James

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Mr Anthony Jenner.

1. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2022 fel y cawson nhw eu dosbarth i'r aelodau ar gynnig AE ac eiliwyd gan VW a DJ.

2. Materion yn codi o 29/11/22:

- Bwrdd gwybodaeth Meini Gŵyr: dywedodd JM bod y dylunydd Phil Wait wedi anfon dyfynbris o £913.85 am greu'r bwrdd gwybodaeth. Cytunwyd bwrw ymlaen â hyn.
Cam gweithredu: JM i ofyn i Phil Wait anfon drafft cyn yr argraffiad terfynol i wneud yn siŵr ei fod yn iawn
- Arwydd safle picnic Ynys Fach: Y Cyngor Sir sy'n gyfrifol am waith cynnal a chadw'r safle hwn ac maen nhw wedi cadarnhau bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ddechrau Ebrill. Maen nhw wedi rhoi caniatâd i'r cyngor cymuned adnewyddu'r arwydd ond maen nhw am weld ei ddyluniad yn gyntaf a hefyd cadarnhad o'i leoliad.
Cam gweithredu: JM i ofyn i Boomerang greu drafft o'r arwydd; yna ei rannu gyda phawb a hefyd gyda'r cyswllt yng Nghyngor Sir Gâr
- Mae sbwriel yn broblem fawr yn y maes parcio ar bwys y safle picnic
Cam gweithredu: Gofyn i DP i wneud cais bod y sbwriel yn cael ei gasglu'n amlach yn Ynys Fach
- Diweddariad ar y llwybrau cyhoeddus: Rhoddodd JS ddiweddariad cynhwysfawr ar y datblygiadau sydd wedi cael eu gwneud ar y llwybrau cyhoeddus yn ardal Login – gweler Atodiad 1 am diweddariad llawn JS
- Mae gan gynghorau cymuned bwerau i fynd at berchnogion tir a'u cymell i gydweithio er mwyn clirio a chadw'r llwybrau hyn ar agor. Mae gan berchnogion tir ddyletswydd gyfreithiol i gadw'r llwybrau cyhoeddus ar eu tir ar agor. Mae yna ganllawiau i berchnogion tir am eu cyfrifoldebau ynghylch llwybrau cyhoeddus. Gofynnodd JS a fyddai'r cyngor cymuned yn ystyried trafod gyda'r perchnogion tir a defnyddio'r pwerau hyn?
- Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin wefan newydd i adrodd am unrhyw faterion ym ymwneud â'r llwybrau cyhoeddus ac mae'n dangos y llwybrau i gyd a sut y dylen nhw edrych fel mewn byd delfrydol. Mae'r wefan hon yn ffordd o fesur y galw am ddefnyddio'r gwahanol llwybrau. Bydd JS yn anfon y ddolen at JM
- Mae cyllid Llwybrau at Les ar gael a gellid ystyried cyflwyno cais yn y rownd nesaf
- Trafodwyd yswiriant. Mae gwirfoddolwyr sy'n clirio'r llwybrau yn ysgwyddo eu cyfrifoldebau eu hunain.

Cam gweithredu:

- **Holi DPh am y canllaw i berchnogion tir yn ymwneud â llwybrau cyhoeddus**
- **JM i gadarnhau pwy yw perchnogion tir y gwahanol llwybrau a nodwyd yn y cyfarfod cyhoeddus ac e-bostio'r rhestr at bawb fel y cam cyntaf**

Y bosibilrwydd wedyn o wahanol aelodau yn mynd i siarad â pherchennog tir yn barau. Bydd rhaid cael y ddeialog hon gyda phob perchennog tir cyn trefnu gwirfoddolwyr ac ati.

- Ffrydiau ariannu - bydd JM yn adrodd nôl ar ffrydiau ariannu priodol yn y cyfarfod nesaf.
- Datblygu gwefan – dywedodd JM bod prisiau Jamie King yn gystadleuol a'i fod yn lleol, yn byw yn ardal Llanfallteg. Mae Cyngor Cymuned Llangynin yn hapus â'i wasanaethau. Byddai'r gwaith o ffurfio gwefan, gan gynnwys costau'n ymwneud â 'domain hosting', 'website hosting' a diogelwch rhwng £500 a £700. Mae JM wedi derbyn rhestr o bethau y byddai'n rhaid cynnwys ar y wefan. Cytunwyd defnyddio gwasanaethau Jamie King.

Cam gweithredu: JM i gysylltu â Jamie King a bwrw ati i ddatblygu gwefan

- Diffib yng Nghanolfan Gymunedol Ffynnonwen – cyflwynwyd cais am grant deffib ddechrau mis Rhagfyr a gafodd ei gwblhau gan Julie Sweet. Bu'r cais yn un llwyddiannus a diolchwyd i JS am ei gwaith. Anfonwyd llythyr i Ganolfan Ffynnonwen yn gofyn a fydden nhw'n cytuno gosod y deffib tu allan i'r adeilad. Maen nhw wedi cadarnhau eu bod yn cytuno ond bydden nhw'n gofyn am gyfraniad at y gost o brynu cabinet wedi'i wresogi sy'n un o ofynion y grant. Mae cabinet tua £520.

Cadarnhaodd JS ei bod yn fodlon bod yn warcheidwad y deffib a'i bod hefyd wedi derbyn hyfforddiant.

Dywedodd JS y byddai rhai trigolion yr ardal yn barod i gyfrannu tuag at y gost. Cytunwyd y byddai'r cyngor cymuned yn hapus i roi cyfraniad tuag at cost cabinet.

Cam gweithredu:

- **JM i hysbysu ysgrifennydd Canolfan Ffynnonwen bod y cyngor cymuned yn fodlon cyfrannu tuag at cost cabinet wedi ei wresogi**
- **DJ i wneud ymholiadau ynglyn â sut aethpwyd ati i osod y cabinet yng Nghaffi Beca**
- Apêl Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023 – cadarnhawyd yr anfonwyd cyfraniad o £500 y llynedd.
- Cyfyngiadau cyflymder 20 mya – dywedodd sawl aelod eu bod wedi ychwanegu eu sylwadau ar Traffweb. Y dyddiad cau oedd 9 Rhagfyr.

Gohebiaeth

- Derbyniwyd llythyr apêl oddi wrth Y Cardi Bach yn gofyn am gyfraniad tuag at gost gynhyrchu a chynnal y papur bro. Cytunwyd rhoi yr un swm â'r llynedd, sef £250. Bydd JM yn anfon siec at drysorydd Y Cardi Bach.
- Derbyniwyd cais am enwebiad ar gyfer llywodraethwr cymunedol ychwanegol gan Gadeirydd Corff Llywodraethol Ffederal Ysgol Beca (Efailwen) ac Ysgol Bro Brynach (Llanboidy). Maen nhw'n awyddus i gael cynrychiolaeth o ardal Efailwen a/neu gyda chysylltiad ag Ysgol Beca, a byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol. Gofynnwyd i RJJ ond ni allai ymrwymo ar hyn o bryd.

Cam gweithredu: RJJ i ofyn i eraill a fyddai diddordeb ganddyn nhw fod yn llywodraethwr cymunedol

- Derbyniwyd gwahoddiad i seithfed Cynhadledd Flynyddol Gŵyl Dewi, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys Dafydd Llywelyn, ddydd Gwener, Mawrth 3. Mae gan RJJ ddiddordeb mynychu a bydd yn cofrestru.
- Anfonwyd sawl e-bost at aelodau am wahanol ymgynghoriadau sydd ar agor.

3. Arwyddo sieciau/mandad

- Cadarnhaodd JM bod y mandad bellach wedi'i ddiwedaru a'i gadarnhau. Bydd TE, TL a JM yn gallu arwyddo sieciau nawr.
- Tâl y Clerc - adroddodd JM fod NALC wedi cadarnhau'r graddfeydd cyflog newydd ar gyfer clercod, yn ôl-weithredol o 1 Ebrill 2022. Felly byddai cyflog y clerc nawr yn codi o £1300 y flwyddyn i £1398.90 y flwyddyn (o £25 yr wythnos i £26.90 yr wythnos).

Dechreuodd JM rôl y clercc ym mis Mai 2022, felly cyfanswm o 48 wythnos hyd at 31 Mawrth 2023. Cyflwynodd JM anfoneb o £1291.20 ar gyfer cyflog clercc am y flwyddyn 2022/23. Cymeradwywyd hyn gan aelodau'r Pwyllgor.

- Sieciau yn daladwy i:
 - Mr Robert James, Caffi Beca - £25
 - Apêl 'Y Cardi Bach' - £250
 - G O James, Torri clawdd ger afon Tâf yn Login - £35
 - Cyflog 2022/23 y Clercc - £1291.20

4. Cynllunio

- Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cyflwyno o fewn cymuned Cilymaenllwyd.

5. Praesept 2023/24

- Ystyriwyd y praesept drafft a baratowyd gan JM ar gyfer 2022/23. Cytunwyd codi'r swm o £7000 i £8000 yn unig gan fod swm digonol yn y gronfa. Bydd JM yn anfon y ffurflen praesept ar gyfer 2023/24 cyn gynted â phosibl.

6. Cynllun Hyfforddiant

- Anfonwyd rhestr o sesiynau hyfforddiant arlein Ionawr – Mawrth at bawb mewn e-bost. Cost pob sesiwn hyfforddiant yw £35. Dywedodd JM bod angen i'r cyngor cymuned gael cynllun hyfforddiant yn ei lle; i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod mis Mawrth. Mynegodd JM ei diddordeb i fynyachu sesiwn hyfforddiant ym mis Chwefror (21/2/23 Cod Ymddygiad) a bydd yn adrodd nôl.

7. Unrhyw Fater Arall

- Dywedodd JM bod GJ wedi penderfynu tynnu nôl fel aelod o'r cyngor cymuned oherwydd afiechyd.

Cam gweithredu: JM i anfon llythyr o ddiolch i GJ am ei holl waith gyda'r cymuned cyngor dros y blynyddoedd

- Aelodau newydd – cadarnhawyd bod Julian Williams a Michael Fussell wedi'u cyfethol i ymuno fel aelodau newydd o'r cyngor cymuned, yn lle LO a GJ. Cynigiwyd hefyd gofyn i Ffion John i ymuno pan fydd VW yn camu lawr yn mis Mai.

Cam gweithredu: TL i ofyn i Ffion John a fyddai'n ystyried ymuno fel aelod

- Trafodwyd tyllau yn y ffyrdd.

Cam gweithredu: Pawb i roi gwybod i DP am unrhyw faterion yn ymwneud â thyllau ffordd

- Holiadur cysgodfannau bysiau – mae angen cwblhau holiadur yn rhoi manylion am gysgodfannau mae'r cyngor cymuned yn berchen arnyn nhw ac yn gyfrifol amdanynt nhw. Cadarnhawyd mai dim ond un sydd gyda'r cyngor cymuned a hwnnw yn sgwâr Efailwen, wedi ei wneud o frics a theils to. Bydd JM yn dychwelyd yr holiadur.

8. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

- Nos Fawrth 28ain Mawrth 2023 am 7.30yh yng Nghaffi Beca.

Terfynwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd

Arwyddwyd:

Cadeirydd:



Dyddiad: 28/03/2023

Atodiad 1 – wedi ei ddarparu gan Julie Sweet

Cilymaenllwyd meeting Caffi Beca 31.1.23 7.30pm.

Footpaths put forward for Login and Cwm-Miles were – **4/7, 4/12, 4/13, 4/16, 4/19 & 18/42**. I have highlighted in bold the Login footpaths forwarded to the Council by Councillor Phillips. For footpath locations please refer to the Parish Council map for Cilymaenllwyd.

4/7 – is still with the council for footpath consideration.

4/12 – see below.

4/13 – open but unsigned and the Council will be submitting a small path change in the future for entrance from the metalled road in Login village.

4/16 – surveyed and ready for volunteers to start clearance after landowner permission secured. See below.

4/19 – clear apart from one section (as previously reported) map reference SN16516 24908 to SN16487 25097, a length of approximately 200 metres.

18/42 – see below. **4/5** – open unsigned.

4/20 – open apart from one small section.

4/22 – open unsigned.

4/23 – open unsigned.

Jason Lawday from the Council re-visited the area on 10.1.23 to investigate the drainage issue on footpath 4/12 above Lletty and below Llandre. This is part of the Landsker line footpath and the Council have termed it a promoted 'long distance route' which means it gets some maintenance.

Jason has informed the landowner that the drainage issue will have some maintenance in the next financial year. So, from April onwards the work may be started.

The County Council have a new way of reporting footpath issues. The link can be accessed from their website – council services – public rights of way – then click again on public rights of way – see the public rights of way map site – OR (<https://prow-carms.esdm.co.uk>).

Once on this 'public rights of way' map you can see all numbered rights of way in Carmarthenshire and related Parishes. The length of each footpath is detailed and can also see where all associated path furniture should be, e.g. signs, stiles, bridges etc.

You can report an issue and track previous issues. You have to register to log an issue, which is straightforward. It is an improvement on the previous system where previously reported issues have been lost.

I would recommend everyone who has previously reported an issue to re-report the issue through this website, they will automatically receive an email and log number. If all people report any defects or issues then it gives the Council a more accurate picture of demand for rights of ways and related issues. Previously reported issues not done via this website have not always been recorded so the Council may be unaware of any issue.

All rights of way in Cilymaenllwyd Parish other than some sections of the Landsker Line are still unsigned. According to the Council signage is the last bit of path furniture to be placed. Signage is usually done in batches where there are several to be done in one area.

Login village sits on the very edge of Cilymaenllwyd parish so consequently several of the footpaths that lead to or from Login village migrate out into the neighbouring parish of Llanboidy. As footpaths previously linked adjoining Parishes. Many people living and walking from Login village walk or wish to walk the local footpaths without having to get into a car. Footpath 18/42 starts in Login village and initially is part of the Landsker trail but very shortly then splits at footpath junction 18/43. This is one of the footpaths that Login put forward to clear at the initial footpath meeting on 27.9.22. Part of it is in Llanboidy Parish.

The first section footpath is now very clear and is getting lots of footfall which is keeping the path open. Slightly further on footpath 18/42 is partially blocked and volunteers are very willing to make a start on this clearance. One of the landowners on this section is very amenable to footpath clearance but another isn't. The Council have stated there is little or no budget to do this. This time of the year is perfect for footpath clearance due to less overgrowth and volunteers have available time to offer.

Several footpaths within Login have already been cleared with landowner permission and volunteer assistance.

Are the Parish Council willing to use their rights to maintain and keep clear existing footpaths?

Can I propose on behalf of the willing volunteers of Login that one of the solutions to opening up footpaths is for the Parish Council to speak with landowners and then volunteers clear these obstructed footpaths. This organisation and footpath clearance could be extended to the footpath volunteers in Efailwen and Hebron.

We have done this in Login on a low-key level up until now without the Parish Council with good success.

Footpath 4/9 could perhaps be a starting point. Opening up this existing right of way would take walkers off a busy, narrow and sometimes fast section of road and re-join the Landsker Trail or other footpaths. Footpaths 4/16 and 4/11 are other paths that clearance could be started once land-owner permission is sought.

Do Llanboidy Parish have a volunteer footpath group? Are they happy for the Login group to proceed with footpaths from Login that go into Llanboidy? Can we work collaboratively? E.g. footpaths 18/42, 18/38, 18/37, 18/39 to re-open. This will link up Login and Llanboidy communities via footpaths.

I am also involved with the funded campaign through the Ramblers association to map and save lost paths or lost ways prior to the Parish council survey in 1950's but not recorded on the Definitive Map. Carmarthenshire area are looking to recruit more volunteers to assist. More details here <https://dontloseyourway.ramblers.org.uk>

The role of Don't Lose Your Way Researcher is for those who are keen to engage in the process of researching, applying for, and saving these lost paths. The approach taken by researchers will vary in different areas and will be guided by a local coordinator. You could get involved with deskwork, archival research, or surveying potential lost paths on the ground, as well as supportive and administrative tasks.

There is a map which shows historical rights of way. If anyone wants more information, they can contact me or look on the website.